Gweinidogion Lleyg y Cymun Bendigaid ledled yr Esgobaeth

***Dydd Iau 14 Gorffennaf: John Keble (1866), Offeiriad ac Athro***

*Eseia 26:7-9, 12, 16-19; Salm 102; Mathew 11:28-30*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Maridi – Eglwys Esgobol De Swdan

Ardal Gweinidogaeth Gogledd Caerdydd, y Parchedig Jim Griffith (Arweinydd), Eleanor Williams (Cadeirydd Lleyg)

***Dydd Gwener 15 Gorffennaf:***

*Eseia 38:1-6, 21; Salm 6; Mathew 12:1-8*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Sant Marc yr Efengylwr, Eglwys Anglicanaidd De Affrica

Deoniaeth Llandaf, y Parchedig Ganon Gan van der Lely

Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, y pennaeth Marc Belli, y staff a'r disgyblion

***Dydd Sadwrn 16 Gorffennaf:***

*Micha 2:1-5; Salm 10; Matthew 12:14-21*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Marsabit, Eglwys Anglicaniadd Cenia

Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd, y Parchedig Frances Wilson (Arweinydd), Nathan Hall (Cadeirydd Lleyg)

*Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:*


**Ficer/Vicar:** Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd
Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
**Y Wardeniaid/Churchwardens:**
Wyn Mears - Ffôn: 029 2075 8726
E-bost: wyn@wynmears.com
Gwynn Matthews – Ffôn: 029 2089 1802
E-bost: m.g.derwendeg@gmail.com
**Cyfarwyddwr Cerdd:**
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
**Trysorydd**:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
**Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:**
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
**Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:**
Marian Fairclough - Ffôn: 029 2088 5151
E-bost: faircloughmarian@gmail.com


**Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd**

**EGLWYS DEWI SANT**
www.eglwysdewisant.org.uk

**CROESO i Eglwys Dewi Sant**

**10 Gorffennaf 2022**
*Trindod IV – Sul y Môr*

**10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân**
**Darllenydd:** Liz Harewood
**Emynau** *a threfn gwasanaeth yn y llyfryn*:

**6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth**
**Salm:** 77
**Darlleniadau:** Genesis 32:9-39 / Marc 7:1-23
**Darllenwyr:** Delyth Davies / Margaret Hughes
**Emynau:** 393 (Dominus Regit 512); 371 (Hesperus 149); 530 (Melta)

**Podlediadau:**
Ni ddarlledir podlediadau heddiw.

**YN EIN GWEDDÏAU**

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Mel Amos, Cathrin Brynach, John Hicks, Ann Wyn Jones, Val Peel, Nia Roberts, Gwen Thomas ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Canon John Rowlands (Offeiriad) a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

**YN YR EGLWYS:**

**Dydd Mawrth 12 Gorffennaf 2022**
*Dim ymarfer Côr*

**Dydd Mercher 13 Gorffennaf 2022**
10.30am – Y Cymun Bendigaid

**Dydd Sul 17 Gorffennaf 2022**
*Trindod V*
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

**HEDDIW**
Ar ôl y gwasanaeth aml-oed heddiw am 10.30am bydd Yasmin a Rafael yn rhoi cyngerdd bach i ddiolch i EDS am y croeso, y cyfeillgarwch a'r gefnogaeth a dderbyniodd Yasmin gennym tra'n astudio yn y Goleg Cerdd a Drama. Bydd y cyngerdd yn para am oddeutu 15 munud. Croeso i bawb.

**LLACIO'R CYFYNGIADAU**
1. Yr ydym bellach yn cynnig paned yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth 10.30am
2. Yr ydym yn cymryd casgliadau yn ystod y gwasanaethau. Yn y gwasanaeth boreol cymerir y casgliad yn ystod yr ail emyn. Cymerir y casgliad yn ystod yr emyn olaf yn y gwasanaeth hwyrol.
3. Mae'r ffordd y mae'r Cymun yn cael ei weinyddu yn wedi newid. Fe'ch gwahoddir i ffurfio llinell i ddod at y Ficer, a fydd wrth ris yr allor, a sefyll i dderbyn y bara cyn dychwelyd i'ch sedd.

**Nodyn:** Os nad ydych yn teimlo'n gyffyrddus â hyn, bydd y ficer yn dod â'r Cymun atoch yn eich sedd ar y diwedd.

**AILGYFLWYNO'R CWPAN CYMUN**
Bwriedir ailgyflwyno'r cwpan Cymun i'r rhai sy'n dymuno dderbyn y bara a'r gwin y Sul nesaf, 17 Gorffennaf yn y gwasanaeth 8.00am a 10.30pm ac yna yn y gwasanaeth bore Mercher 20 Gorffennaf.
Ar ôl derbyn y bara bydd gan bob Cymunwr y dewis o fynd at yr un sy'n gweinyddu'r cwpan neu ddychwelyd yn syth i'w sedd.

**Mae'n bwysig nodi nad oes gorfodaeth na disgwyl i unrhyw un yfed o'r Cwpan os nad yw'n teimlo'n hollol gyffyrddus i wneud hynny. Mae'r bara ynddo ei hun yn ddigonol.**

Yn ôl canllawiau yr Eglwys yng Nghymru mae'n rhaid yfed o'r cwpan. Ni chaniateir i gymunwyr wlychu'r bara yn y gwin. Mae hyn yn cael ei ystyried yn weithred sy'n cynyddu'r risg o heintio'r gwin.

**CYMANFA GANU – EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF**
Mae Eglwys Gadeiriol Llandaf yn cynnal gŵyl o 14 Gorffennaf i 17 Gorffennaf. Ar nos Iau 14 Gorffennaf am 6.30pm traddodir darlith gan yr Athro Wyn James ar "The Welsh Hymn", sy'n rhad ac am ddim, ac yna Fe gynhelir y Gamanfa Ganu am 7.30pm. Pris rhaglen y gymanfa yw £8. Am ragor o wybodaeth dilynwch y ddolen isod.
https://www.ticketsource.co.uk/Llandaff-Cathedral

**COFFI A CHLONC**
Cynhelir ein bore Coffi i ddysgwyr bore Sadwrn 16 Gorffennaf yn neuadd yr eglwys gan ddechrau am 10.30am. Croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**TE PRYNHAWN**
Yr ydym yn trefnu Te Prynhawn y Sadwrn nesaf, sef dydd Sadwrn 16 Gorffennaf yn neuadd yr eglwys rhwng 3.00pm a 5.00pm. Bydd hwn yn gyfle i bawb ddod ynghyd am brynhawn o gymdeithasu hamddenol. Os hoffech ddod a fyddech chi gystal â rhoi eich enw ar y daflen yng nghefn yr eglwys, anfon neges at Dilys Jones naill ai trwy ei ffonio ar 02920612963 neu anfon neges dros Whatsapp.

**CLOCH DEWI**
Gofynnir am gyfraniadau i'r rhifyn nesaf o Gloch Dewi erbyn dydd **Gwener 15 Gorffennaf**. Mae croeso i chi anfon pwt bach neu erthygl ar unrhyw bwnc o'ch dewis. Dyma restr o syniadau:
-Beth am baratoi rhywbeth am eich plant a fu'n aelodau yn yr eglwys - ble ma'n nhw erbyn hyn? Beth ma' nhw'n wneud? Oes 'na wyrion? Oes 'na luniau ar gael?
-Beth am gynnig syniad am rywle difyr i fynd am dro yng nghyffiniau'r ddinas?
-Oes gennych chi rysêt fyddai'n apelio at ein darllenwyr?
-Pa atgofion sydd gennych o ddiwrnod arbennig iawn yn eich bywyd?
Cysylltwch â Wyn Mears - wyn@wynmears.com gyda'ch cyfraniadau!

## GWARCHOD YR EGLWYS
Yr ydym yn parhau i fod yn brin o bobl sy'n barod i warchod yr Eglwys ar foreau Mercher, ac mae'r gwaith yn syrthio ar nifer fechan o unigolion. Os ydych yn barod i helpu, hyd yn oed yn achlysurol, a fyddech chi garediced â chael gair a Rhys Jones os gwelwch yn dda.
Dydd Mercher 13 Gorffennaf: 11.00am - 1.00pm
Beti Davies a Dilys Jones

## GWEDDÏAU'R SUL
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:
- Eglwys Anglicanaidd Talaith Wganda
- Ardal Gweinidogaeth Calon y Ddinas, y Parchedig Ganon Sarah Jones (Arweinydd), Paul Booth, y Cadeirydd Lleyg)

## *GWYLIAU A DARLLENIADAU*
***Dydd Llun 11 Gorffennaf: Bened (c540), Abad***
*Eseia 1:10-17; Salm 50:7-15; Mathew 10:34-11:1*
*Gweddïwn:* Esgobaeth Mara – Eglwys Anglicanaidd Tanzania
Ardal Gweinidogaeth De Caerdydd, y Parchedig Dean Atkins (Arweinydd), Cadeirydd Lleyg i'w benodi
***Dydd Mawrth 12 Gorffennaf:***
*Hosea 8:4-7, 11-13; Salm 115; Mathew 9:32-38*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Maralal, Eglwys Anglicanaidd Cenia
Ardal Gweinidogaeth y Rhath a Cathays, y Parchedig Ganon Stewart Lisk (Arweinydd), Mike Payne (Cadeirydd Lleyg)
***Dydd Mercher 13 Gorffennaf:***
*Eseia 10:5-7, 13-16; Salm 94:3-15; Mathew 11:25-27*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Marathwada – Eglwys Unedig Gogledd India